



## Tabl Cynnwys

<b>Rhagarweiniad</b> .....	3
<b>Pandemig COVID-19</b> .....	3
<b>Gosod Blaenoriaethau</b> .....	4
<b>Aliniad Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor ac Amcanion Lles</b> .....	5
<b>Eich Gwasanaethau Lleol</b> .....	7
<b>Asesiad o'n Hamcanion Lles</b> .....	8
<b>Uchafbwyntiau perfformiad a'r hyn a gyflawnwyd</b> .....	10
<b>Portffolio: Addysg ac Ieuentid</b> .....	10
<b>Portffolio: Tai ac Asedau</b> .....	11
<b>Portffolio: Llywodraethu</b> .....	12
<b>Portffolio: Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi</b> .....	13
<b>Portffolio: Gwasanaethau Cymdeithasol</b> .....	14
<b>Portffolio: Gwasanaethau Stryd a Chludiant</b> .....	15
<b>Portffolio: Prif Weithredwyr</b> .....	16
<b>Cynnydd ar Gynllun y Cyngor – Ffeithlun o statws COG</b> .....	17
<b>Asesiad o'n Perfformiad</b> .....	17
<b>Crynodeb o'r Data Perfformiad</b> .....	17
<b>Crynodeb o Berfformiad Cenedlaethol (Sefyllfa Cymru Gyfan)</b> .....	17
<b>Crynodeb Perfformiad Cynllun y Cyngor</b> .....	20
<b>Crynodeb o Ddata Perfformiad y Cyngor</b> .....	22
<b>Rheoli Risg a Chynllunio Busnes</b> .....	23
<b>Cenedlaethau'r Dyfodol – Pum Ffordd o Weithio - Astudiaeth Achos: Cartref Preswyl Marleyfield</b> .	24
<b>Cenedlaethau'r Dyfodol – Pum Ffordd o Weithio - Astudiaeth Achos: Canolfan Atgyweirio ac Ailddefnyddio gyda Chaffi, Bwcle</b> .....	26
<b>Gwerth Cymdeithasol – Astudiaethau Achos</b> .....	28
<b>Cydraddoldeb</b> .....	31
<b>Safonau'r Gymraeg</b> .....	31
<b>Gweithgarwch Partneriaethau a Chydweithio</b> .....	31
<b>Rheoleiddio, Archwilio ac Arolygu</b> .....	33
<b>Iechyd a Diogelwch Corfforaethol</b> .....	33
<b>Gwybodaeth Gefndir Ychwanegol:</b> .....	33
<b>Adborth a Sut i gael Rhagor o Wybodaeth</b> .....	34

## Rhagarweiniad

Croeso i Adroddiad Perfformiad Blynyddol Sir y Fflint. Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o berfformiad y Cyngor yn ystod 2020/21 yn erbyn y blaenoriaethau yr ydym wedi'u gosod. Mae hefyd yn ymdrin â'n cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Lles.

Mae'r adroddiad yn trafod:

- Gwybodaeth perfformiad gwirioneddol a chymharol yn erbyn dangosyddion perfformiad a bennir yn lleol ac yn genedlaethol;
- Ein perfformiad yn erbyn Dulliau Gweithio Cenedlaethau'r Dyfodol a'n hamcanion Lles ein Hunain.

## Pandemig COVID-19

Mae 2020/21 wedi bod yn flwyddyn eithriadol i bob sefydliad, wrth i ni ymdopi â bygythiadau a heriau pandemig byd-eang.

Roedd y Cyngor yn gallu cynnal gwasanaethau hanfodol drwy gydol y pandemig, a'r cyfnodau clo gorfodol, drwy gynllunio hapddigwyddiadau effeithiol, arloesi, ac ymrwymiad ei reolwyr a'i weithlu.

Mae'r Cyngor wedi chwarae rhan allweddol yn yr ymateb lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i'r pandemig, ac yn fwy diweddar, adfer a chynllunio at y dyfodol. Fe wnaethon ehangu ein rôl i warchod pobl ddiamddiffyn er enghraifft wrth ddarparu gwasanaethau cefnogi i'r sawl a oedd yn gorfod gwarchod eu hunain gartref, cyfrannu at ysbyty'r enfys a'r rhaglenni brechu, ac arwain y chwe awdurdod lleol yn y rhanbarth wrth ddatblygu rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu cynhwysfawr. Roeddem wedi addasu ein gwasanaethau hefyd, i alluogi parhad gwasanaethau ar lwyfannau digidol.

Ni chyhoeddwyd Cynllun y Cyngor ar gyfer 2020/21 ar ei ffurf arferol yn brydlon oherwydd amhariad y pandemig. Adolygwyd amcanion a thargedau ar gyfer y flwyddyn ac fe'u cyhoeddwyd ar ei chanol. Fe luniodd bob portffolio gynlluniau adfer busnes a gefnogwyd gan gofrestrau risg, sydd wedi cael eu cynnal a'u cadw, a'u rheoli'n weithredol.

Cafodd perfformiad gwasanaethau ei effeithio'n anochel gan amhariad y pandemig a chyfyngiadau dros dro ar ddarpariaeth gwasanaethau, a osodwyd ar lefel genedlaethol. Mae pob gwasanaeth hanfodol wedi'i gynnal drwy gydol y pandemig, ac mae perfformiad yn erbyn safonau perfformiad diwygiedig a targedau wedi bod yn gryf.

Gellir gweld ein hasesiad o'n hymateb i'r pandemig o fewn yr adroddiadau a'r cyhoeddiadau ar ein gwefan. Mae ein adferiad parhaus yn cael ei lywio gan y Pwyllgor Adfer. Mae ein hymateb, a nawr adferiad, yn cael ei oruchwylio gan y Prif Weithredwr a Thîm y Prif Swyddog.

Rydym yn parhau i chwarae rôl arweiniol wrth gynllunio adfer rhanbarthol.

Mae Archwilio Cymru wedi dweud "o'r gwaith mae Archwilio Cymru wedi ymgymryd ag o hyd yma, cefais fy sicrhau bod adferiad Cyngor Sir Y Fflint (y cyngor) o effaith y pandemig wedi elwa o arweinyddiaeth gref a chyson, yn enwedig o ran cynllunio a gwneud penderfyniadau. Bu gyriad i ymgysylltu â, ac arwain grwpiau rhanbarthol sy'n gadarnhaol. Mae cyfathrebu mewnol ac allanol wedi bod yn gryf, ac mae hyn yn glod i'r Cyngor.

Rydw i'n ystyried dull y Cyngor o adrodd i fod â strwythur da, ac wedi'i gynllunio'n ofalus. Mae'r Cyngor wedi cymryd yr ymateb iawn i gynllunio corfforaethol. O ganlyniad, mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i ganolbwyntio ar adrodd yn glir a chryno, gan gyflawni prosiectau allweddol a sicrhau bod y galw am wasanaethau hanfodol yn cael ei ddiwallu.

### Gosod Blaenoriaethau

Mae hyblygrwydd wrth gynllunio wedi bod yn hanfodol yn ystod 2020/2021. Mae risgiau strategol a gweithredol corfforaethol a phortffolio yn cael eu monitro fel rhan o'r broses adfer, ac nid ydynt wedi'u cysylltu'n uniongyrchol i Gynllun y Cyngor ar gyfer 2020/21.

## Aliniad Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor ac Amcanion Lles

Ar gyfer 2020/21, mae'r Amcanion Lles wedi cael eu dyrannu i'r portffolios perthnasol fel y manylir arnynt isod:

Portffolio	Amcanion Lles
<b>Addysg ac Ieuencid</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial.</li> <li>Cefnogi dysgwyr o 3 i 18 oed i anelu at lefelau uchel o gyrhaeddiad a chyflawniad addysgol.</li> <li>Darparu cyfleoedd dysgu ac amgylcheddau dysgu o safon uchel ar gyfer dysgwyr o bob oed.</li> </ul>
<b>Tai ac Asedau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd ar gyfer pob deiliadaeth.</li> <li>Amddiffyn pobl rhag tlodi drwy wneud y mwyaf o'u hincwm a gwneud y mwyaf o'u cyflogadwyedd.</li> </ul>
<b>Llywodraethu</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ehangu mynediad digidol i wasanaethau cyhoeddus.</li> </ul>
<b>Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal twf economaidd drwy ddatblygu busnes lleol a rhanbarthol, strategaethau cyflogaeth a sgiliau.</li> <li>Gwneud cymunedau yn llefydd diogel drwy weithio gyda phartneriaid i atal troseddu, troseddu ailadroddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.</li> <li>Amddiffyn pobl rhag y perygl o unrhyw ffurf o gamdriniaeth</li> <li>Sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd uchel ar gyfer pob deiliadaeth.</li> <li>Creu cyflenwad o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth amrywiol ac o ansawdd</li> <li>Parhau i fod yn sefydliad sector cyhoeddus arloesol sy'n perfformio'n dda ac sydd â gwerthoedd cymdeithasol</li> <li>Amddiffyn pobl rhag tlodi drwy wneud y mwyaf o'u hincwm a gwneud y mwyaf o'u cyflogadwyedd</li> <li>Ymrwymo i fodolau gwasanaeth gwydn i gynnal gwasanaethau cyhoeddus lleol.</li> <li>Cefnogi cymunedau lleol i fod yn wydn ac yn hunangynhaliol.</li> <li>Creu cyflenwad o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth amrywiol ac o ansawdd</li> <li>Cynnal twf economaidd drwy ddatblygu busnes lleol a rhanbarthol, safleoedd hyfforddiant, cyflogaeth a datblygu</li> </ul>
<b>Gwasanaethau Cymdeithasol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal ymyraethau cynnar i gefnogi byw'n iach a byw'n annibynnol</li> <li>Cynnal marchnad leol o ddarpariaeth gwasanaeth o safon uchel a fforddiadwy i bobl sy'n ddibynnol iawn ar gefnogaeth gofal</li> </ul>

Portffolio	Amcanion Lles
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Amddiffyn pobl rhag y perygl o unrhyw ffurf o gamdriniaeth</li> </ul>
<b>Gwasanaethau Stryd a Chludiant</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu'r isadeiledd cludiant a safleoedd cyflogaeth, a gwasanaethau cludiant, ehangu mynediad at safleoedd cyflogaeth a hyfforddiant</li> <li>• Gwneud y mwyaf o adfer ac ailgylchu gwastraff</li> </ul>
<b>Prif Weithredwyr</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel, sydd yn hygyrch, yn ymatebol ac yn gost effeithiol</li> <li>• Darparu gwasanaethau cydgysylltiedig gyda phartneriaid sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n cefnogi ansawdd bywyd mewn cymunedau ar gyfer unigolion a theuluoedd</li> <li>• Ymrwymo i fodlau gwasanaeth gwydn i gynnal gwasanaethau cyhoeddus lleol</li> <li>• Cefnogi cymunedau lleol i fod yn wydn ac yn hunangynhaliol</li> </ul>

Sylwer: Mae'r cynllun lliwiau a ddefnyddir yn y tabl hwn yn cael ei ddefnyddio trwy gydol y ddogfen er mwyn ei gwneud yn haws i'w adnabod.

## Eich Gwasanaethau Lleol

Gwasanaethau i chi – crynhoad o ystod o wasanaethau rydym yn eu cynnig i gymunedau Sir y Fflint a rhai ffigyrau o ran pa mor dda oedd ein perfformiad y llynedd, 2020/21.



- Fe gymerodd 1,865 o blant ran yn y cynllun chwarae haf, gan gynnwys 30 o blant anabl a gefnogwyd gan gyfeillion gwirfoddol
- Cynigiwyd addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth i 65% o bobl ifanc 16 – 18 oed yn y system cyfiawnder ieuenctid a oedd yn cael mynediad i fwy na 16 awr yr wythnos
- Cydymffurfio 100% o ran diogelwch nwy
- Cafodd 500+ o breswylwyr eu cefnogi bob wythnos yn ystod y cyfnod gwarchod 18 wythnos, gan ddarparu dros 46,000 o brydau
- Mae'r nifer o dai fforddiadwy sy'n perthyn i, ac yn cael eu rheoli gan NEW Homes wedi mynd tu hwnt i'r targed o 17 cartref
- Darparwyd 2,173 mesur arbed ynni i leihau tlodi tanwydd, a aeth tu hwnt i'r targed o 600
- Cafodd 1,500 o weithwyr o gartref gefnogaeth bob dydd, o'i gymharu â 800 y dydd yn y flwyddyn flaenorol
- Talwyd £50.9 miliwn i fusnesau yn ystod y pandemig, yn ychwanegol at y 1,265 busnes a oedd yn cael dyfarniad o £16.3 miliwn o ryddhad ardrethi manwerthu, hamdden a lletygarwch
- Mae'r Canolfan Gyswilt wedi gweld gwelliant cyffredinol mewn perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf Mae cyfraddau ateb galwadau wedi cynyddu i 93.64%, a'r gyfradd gadawiad wedi lleihau i 6.36%, sef gwelliant o 13% ers y flwyddyn diwethaf
- 17,405 tanysgrifiad newydd i 'Fy Nghyfrif' a oedd wedi mynd tu hwnt i'r targed
- Derbyniwyd dros 79,000 ymholiad hunanwasanaeth digidol Dyma gynnydd sylweddol o'i gymharu a'r flwyddyn flaenorol, ac mae'n mynd tu hwnt i'r targed a osodwyd ar gyfer y flwyddyn o 32%
- Gwnaethom recriwtio 7 o ofalwyr maeth newydd
- Cafodd 4 plentyn eu hatal rhag mynd i'r system gofal drwy ddyfarniad Gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig i aelodau'r teulu
- Derbyniodd 133 o blant gynnig gweithredol eiriolaeth
- Derbyniodd 1,257 o deuluoedd wybodaeth a chefnogaeth drwy'r Hwb Cymorth Cynnar
- Comisiynodd 378 oedolyn eu gwasanaethau eu hunain drwy daliad uniongyrchol
- Cafodd 100% o geisiadau brys am gyfarpar eu diwallu neu fynd tu hwnt i safonau ymateb o 1 diwrnod
- Cafodd 100% o geisiadau brys am gyfarpar eu diwallu neu fynd tu hwnt i safonau ymateb o 7 diwrnod
- Cafodd 96.75% o ymholiadau am ddiogelu oedolion eu hateb o fewn y terfynau amser 7 niwrnod
- 12 o ofalwyr meicro yn darparu gwasanaethau yn y sir
- 55 uned gofal ychwanegol (43 rhandy 1 ystafell wely a 12 rhandy 2 ystafell wely wedi agor yn Nhreffynnon (Plas Yr Ywen)
- Roedd 1,136 o bobl dros 65 oed yn cael eu cefnogi i fyw gartref, a 501 o bobl hŷn eraill yn cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal.

## Aseiad o'n Hamcanion Lles

Gosododd y Cyngor ei Amcanion Lles ym mis Mehefin 2017 i fodloni ymrwymïadau'r Cyngor i gydymffurfio â Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'n ofynnol bod cyrff cyhoeddus dynodedig yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i wella lles yng Nghymru. Mae'r saith nod lles a'r pum ffordd o weithio yn gosod diben cyffredinol ar gyfer cyrff cyhoeddus. Maent hefyd yn ceisio sicrhau y gwneir penderfyniadau gwell drwy:

- ystyried yr hirdymor
- atal
- gweithio integredig
- gweithio ar y cyd
- bod yn gynhwysol o bobl o bob oed.



Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'r saith nod lles drwy ddilyn y [ddolen hon](#).

Mae'r adran 'Cenedlaethau'r Dyfodol – Astudiaethau Achos Pum Ffordd o Weithio' yn cynnig enghreifftiau o sut rydym wedi bodloni ffyrdd o weithio Cenedlaethau'r Dyfodol mewn meysydd gwaith penodol.

Mae ein Hamcanion Lles yn adlewyrchu'r 'Effeithiau' yr ydym yn bwriadu eu cyflawni drwy'r camau gweithredu a'r gweithgarwch o fewn pob blaenoriaeth. Mae aseiad o gynnydd ar gyfer pob Amcan yn cael ei lunio fel rhan o berfformiad cyffredinol ar gyfer pob blaenoriaeth.



## Tystiolaeth o Ganlyniadau Lles yn erbyn Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor

Portffolio	Cynnydd	Amcanion Lles Canlyniad/ Tystiolaeth
<b>Addysg ac Ieuenctid</b>	<b>G</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynigiwyd addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth i 65% o bobl ifanc 16 – 18 oed yn y system cyfiawnder ieuenctid a oedd yn cael mynediad i fwy na 16 awr yr wythnos</li> </ul>
<b>Tai ac Asedau</b>	<b>G</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cafodd dros 500 o breswylwyr eu cefnogi bob wythnos yn ystod y cyfnod gwarchod 18 wythnos (14 Ebrill i 16 Awst 2020), gan ddarparu dros 46,000 o brydau</li> <li>Mae 27 o wirfoddolwyr o'r adran Tai a Refeniw yn ogystal â Clwyd Alyn, Achub Mynydd a gwirfoddolwyr lleol wedi dosbarthu pecynnau bwyd yn uniongyrchol i gartrefi preswylwyr ar sail wythnosol i'r sawl oedd yn gwarchod eu hunain yn ystod y pandemig</li> <li>Mae'r nifer o dai fforddiadwy sy'n perthyn i, ac yn cael eu rheoli gan NEW Homes wedi mynd tu hwnt i'r targed o 17 cartref</li> </ul>
<b>Llywodraethu</b>	<b>G</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r nifer o danysgrifiadau newydd i 'Fy Nghyfrif' yn parhau i gynyddu (17,405 o danysgrifiadau) ac wedi mynd tu hwn i'r targed o 13,131 ar gyfer y flwyddyn</li> <li>Cafwyd dros 79,000 o ymholiadau hunanwasanaeth digidol, sy'n gynydd sylweddol o'i gymharu â llynedd, ac yn mynd tu hwnt i'r targed a osodwyd</li> </ul>
<b>Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi</b>	<b>G</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cafodd 63% o geisiadau cynllunio mawr eu pennu ar amser</li> <li>7.31% o benderfyniadau cynlluniau yn unig a wnaed yn erbyn argymhellion y swyddog</li> </ul>
<b>Gwasanaethau Cymdeithasol</b>	<b>G</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cafodd 96.75% o ymholiadau am ddiogelu oedolion eu hateb o fewn y terfynau amser 7 niwrnod a aeth tu hwnt i'r targed a osodwyd am y flwyddyn</li> <li>Roedd 12 o ofalwyr meicro yn darparu gwasanaethau yn y sir o ganlyniad i weithrediad Meicro-Ofal</li> <li>Agorodd 55 uned gofal ychwanegol yn Nhreffynnon (Plas Yr Ywen) sy'n cynnwys 43 rhandy 1 ystafell wely a 12 rhandy 2 ystafell wely, a aeth tu hwnt i'r targed o 50 uned</li> <li>Roedd 1,136 o bobl dros 65 oed yn cael eu cefnogi i fyw gartref, a 501 o bobl hŷn eraill yn cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal.</li> </ul>
<b>Gwasanaethau Stryd a Chludiant</b>	<b>G</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflawnwyd targed statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer canran y gwastraff a aildddefnyddiwyd, a oedd wedi'i ailgylchu neu ei gompostio</li> <li>Mae dro 700 tunnell o eitemau 'gwastraff' wedi cael eu hanfon i'w haildddefnyddio o Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref Sir y Fflint ac eiddo preswyl</li> </ul>
<b>Prif Weithredwyr</b>	<b>G</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r canran o arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd wedi cael ei gyflawni a phasio'r targed</li> <li>Fe aeth canran amrywiant rhwng sefyllfa derfynol y gyllideb refeniw a'r gyllideb a osodwyd tu hwnt i'r targed</li> </ul>

## Uchafbwyntiau perfformiad a'r hyn a gyflawnwyd

### Portffolio: Addysg ac Ieuencid

Perfformiad Cryf
<ul style="list-style-type: none"><li>• Yn ystod mis Awst 2020, fe gymerodd 1,865 o blant ran yn y cynllun chwarae haf Mae hyn yn cynnwys 30 o blant anabl sy'n cael eu cefnogi gan gyfaill gwirfoddol</li><li>• Mae'r nifer o unigolion sy'n mynd i'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf wedi gostwng yn ystod y flwyddyn</li><li>• Cynigiwyd addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth i 65% o bobl ifanc 16 – 18 oed yn y system cyfiawnder ieuencid a oedd yn cael mynediad i fwy na 16 awr yr wythnos</li></ul>
Straeon Cryf
<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae ysgolion yn Sir y Fflint wedi parhau i gael mynediad i ddatblygiad proffesiynol a chynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd a newidiadau ar ddigwydd i ofynion cyfreithiol ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol</li><li>• Yn ystod atal addysg statudol, cafodd lleoliadau ysgol eu trawsnewid yn Ganolbwyntiau ar gyfer plant diamddiffyn a phlant gweithwyr allweddol yn ystod mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020</li><li>• Roedd ysgolion wedi'u paratoi'n dda at ailagor addysg statudol o fis Medi 2020 ac wedi rheoli cyfnodau clo cenedlaethol dilynol yn effeithiol</li><li>• Darparodd ysgolion uwchradd drefniadau diwygiedig yn llwyddiannus, o ran graddau TGAU a lefel A ar gyfer 2021</li><li>• Mae darpariaeth gweithio o bell ac addasu i ddysgu o gartref drwy ddefnyddio llwyfannau digidol wedi bod yn llwyddiannus</li><li>• Cafodd cynllun chwarae dros yr haf i blant rhwng 5 a 12 oed mewn 55 lleoliad eu darparu, gan gynnwys dau gynllun chwarae cyfrwng Cymraeg Am ragor o wybodaeth, ewch i: <a href="https://www.leaderlive.co.uk/news/18757183.flintshire-play-schemes-adapt-another-successful-summer/">https://www.leaderlive.co.uk/news/18757183.flintshire-play-schemes-adapt-another-successful-summer/</a> (erthygl, <i>Flintshire play scheme adapt for nother successful summer</i>, The Leader, 29 Medi 2020) a (<a href="http://www.deeside.com/flintshire-county-councils-summer-playscheme-deemed-a-success-even-with-added-setback-of-covid-19/">http://www.deeside.com/flintshire-county-councils-summer-playscheme-deemed-a-success-even-with-added-setback-of-covid-19/</a>) (erthygl <i>Flintshire County Council's 'Summer Play-scheme' deemed a success, even with added setback of COVID-19</i>, Deeside.Com, 30 Medi 2020)</li><li>• Fe adolygodd Estyn (Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant ei Mawrhydi) perfformiad y portffolio ddwywaith fel rhan o adolygiad thematig o ddarpariaeth addysg a phlant diamddiffyn yn ystod y pandemig, a chafwyd adborth cadarnhaol ar ddau achlysur</li><li>• Mae Gwasanaethau Ieuencid wedi datblygu gwasanaeth digidol cynhwysfawr i sicrhau fod pobl ifanc yn parhau i gael mynediad i gefnogaeth er gwaethaf cau clybiau ieuencid, yn unol â rheoliadau cenedlaethol</li></ul>
Meysydd Gwella
<ul style="list-style-type: none"><li>• Gwella lefelau presenoldeb a lleihau gwaharddiadau Bu'n heriol mesur unrhyw effaith o'r newidiadau a weithredwyd, o wybod y cyfyngiadau brys a'r newidiadau i ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru a chofnodi dros y flwyddyn ddiwethaf</li></ul>

## Portffolio: Tai ac Asedau

### Perfformiad Cryf

- Roedd y Gwasanaeth Ymateb i Geisiadau Am Waith Atgyweirio wedi parhau i ddarparu gwasanaeth atgyweirio brys ac mewn argyfwng yn ystod y pandemig, ac wedi cydymffurfio 100% o ran diogelwch nwy
- Cafodd dros 500 o breswylwyr eu cefnogi bob wythnos yn ystod y cyfnod gwarchod 18 wythnos (14 Ebrill i 16 Awst 2020), gan ddarparu dros 46,000 o brydau
- Mae'r nifer o dai fforddiadwy sy'n perthyn i, ac yn cael eu rheoli gan NEW Homes wedi mynd tu hwnt i'r targed o 17 cartref
- Roedd canlyniadau boddhad tenantiaid Safon Ansawdd Tai Cymru ar gyfer rhaglenni ailwampio yn gadarnhaol, gyda chyfradd gyfartalog o 96% yn gyffredinol
- Darparwyd 2,173 mesur arbed ynni i leihau tlodi tanwydd, a aeth tu hwnt i'r targed o 600
- Roedd adrodd dim unigolion yn cysgu allan yn profi ymrwymiad parhaus gwasanaethau a gwell ymateb i gysgu ar y stryd

### Straeon Cryf

- Mae prentisiaid masnach wedi bod yn llwyddiannus yn cael cyflogaeth llawn amser o fewn y Gwasanaeth Atgyweirio Tai yn y maes y cawsant eu cymwysterau
- Mae nifer o brosiectau wedi cae; ei cyflawni mewn partneriaeth ynghylch Tlodi yn ystod y pandemig, a buont yn llwyddiannus:
  - **Cefnogaeth Bwyd mewn Argyfwng – Y Rhaglen Warchod** yn cynnwys y cyfnod 14 Ebrill i 16 Awst 2020 (Menter Well-Fed Cyngor Sir y Fflint mewn partneriaeth gyda Chlwyd Alyn a Can Cook)
  - **Gwasanaeth Pryd ar Glyd** – Crëwyd y gwasanaeth, ac mae wedi'i sefydlu'n dda erbyn hyn, gan ddarparu pecynnau bwyd ffres at ddrws preswylwyr yn wythnosol ers mis Medi 2020
  - **Blychau Bwyd Nadolig** – Dull Partneriaeth o weithio i ddarparu cinio Nadolig i deuluoedd ac unigolion mewn angen  
Rhoddwyd 150 o anrhegion a 120 bocsgidiau Dosbarthodd staff tai y blychau cinio Nadolig yn ogystal â bocsgys danteithion a anrhegion i blant y 126 o aelwydydd Sir y Fflint ar Noswyl Nadolig. Yn ychwanegol at hynny, danfonwyd anrhegion i 32 o adawyr gofal yn Sir y Fflint
  - **Siop Fwyd Well-Fed – Cefnogaeth Bwyd Mewn Argyfwng**
  - **Well-Fed – Siop Symudol**
  - **Rhaglen Llwyd Dros Y Gwyliau 2021** – Gan weithio ar y cyd gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint, derbyniodd teuluoedd a fyddai'n elwa o bryd ffres dros wyliau'r haf un yn uniongyrchol at eu drws bob wythnos gan Well-Fed
- Mae 27 o wirfoddolwyr o'r adran Tai a Refeniw yn ogystal â Clwyd Alyn, Achub Mynydd a gwirfoddolwyr lleol wedi dosbarthu pecynnau bwyd yn uniongyrchol i gartrefi preswylwyr ar sail wythnosol i'r sawl oedd yn cysgodi yn ystod y pandemig
- Cafodd nifer cyfartalog o ddiwrnodau targed i brosesu hawliadau newydd ar gyfer budd-dal tai a gostyngiadau treth y cyngor eu diwallu er gwaethaf mwy o waith o ganlyniad i'r pandemig
- Cafodd Bunkabins eu canfod i ddarparu gofod hunangynhwysol i bobl ddigartref sydd angen darpariaeth gwely mewn argyfwng  
Mae'r rhain wedi cael eu derbyn yn dda, ac yn parhau i wneud hynny

### Meysydd Gwella

- Ni wnaeth y nifer diwrnodau calendr a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl (Addasiadau Mawr) ddiwallu targedau disgwylidig
- Roedd y nifer o dai'r Cyngor a gwblhawyd neu ar ganol gwaith adeiladu drwy'r Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP) islaw'r targed
- Ni ddatblygodd ganran tai'r Cyngor a ddiwallodd Safon Ansawdd Tai Cymru o fewn y rhaglen flynyddol gymaint â beth oedd yn ddisgwylidig o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol.

## Portffolio: Llywodraethu

### Perfformiad Cryf

- Roeddem yn gallu cynyddu'r nifer o weithwyr o gartref o 800 y dydd i dros 1,500 er mwyn eu galluogi i barhau i weithio'n ddiogel yn ystod y pandemig
- Cafodd adnoddau ychwanegol eu trefnu o'r sefydliad i fynd i'r afael â chynnydd o 85% i alwadau i'r Canolfan Gyswllt Refeniwiau gan fusnesau lleol a oedd yn cael hi'n anodd goroesi effeithiau'r pandemig
- Talwyd cyfanswm o £50.9 miliwn i fusnesau yn ystod y pandemig, yn ychwanegol i'r 1,265 busnes a oedd yn cael dyfarniad o £16.3 miliwn o rhyddhad ardrethi manwerthu, hamdden a lletygarwch
- Mae'r Canolfan Gyswllt wedi gweld gwelliant cyffredinol mewn perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf Mae cyfraddau ateb galwadau wedi cynyddu i 93.64%, a'r gyfradd gadawiad wedi lleihau i 6.36%
- Cafwyd dros 79,000 o ymholiadau hunanwasanaeth digidol, sy'n mynd tu hwnt i'r targed o 13,131 ar gyfer y flwyddyn, gyda dros 79,000 i ymholiadau hunanwasanaeth digidol yn cael eu derbyn; cynnydd sylweddol o'i gymharu â llynedd, ac yn mynd tu hwnt i'r targed a osodwyd o 32%

### Straeon Cryf

- Roedd y Canolfan Gyswllt ar gael o bell drwy gydol y pandemig, gan sicrhau bod yr amhariad i wasanaethau rheng flaen mor fach â phosib
- Roedd darpariaeth technoleg a darpariaeth fusnes i gefnogi Gwasanaethau'r Cyngor i ymateb i bandemig Covid-19 yn cynnwys:
  - Cefnogi cynnydd gweithwyr o gartref o 800 y dydd i dros 1500
  - Darpariaeth dyfeisiau a band eang mifi i gefnogi dysgwyr dan anfantais ddigidol a defnyddwyr gwasanaeth yn Hwb Cyfle
  - Cefnogaeth ar gyfer Profi, Olrhain a Diogelu
  - Darpariaeth isadeiledd i gefnogi agos Ysbyty'r Enfys yng Nglannau Dyfrdwy a Chartref Gofal Tŷ Treffynnon
  - Cefnogaeth ddigidol i bobl ddi-amddiffyn a phreswylwyr sy'n gwarchod eu hunain
  - Datblygiad cyflym rhaglenni digidol ar gyfer amryw grant sy'n ymwneud â COVID a chefnogaeth ychwanegol i unigolion a busnesau i helpu lliniaru caledi
- Darpariaeth isadeiledd prosiect Hwb i gefnogi darpariaeth cwricwlwm digidol
- Datblygiad safonau data o ansawdd uchel ar gyfer ein data cyfeiriad corfforaethol sy'n caniatáu ar gyfer integreiddio data o systemau amrywiol i gefnogi gwasanaeth a gwybodaeth gwell i gwsmeriaid e.e. cefnogi pobl gyda dementia a gwybodaeth well i gefnogi darpariaeth gofal cartref.  
Mae hyn wedi arwain at gydnabyddiaeth yng Ngwobrau Patrwm Blyneddol Geoplace 2021, yr unig Cyngor yng Nghymru i gael cydnabyddiaeth
- Mae Gwasanaethau Cofrestru wedi cael eu moderneiddio i dynnu'r angen am gofrestrwyr personol ar gyfer priodasau a partneriaethau sifil, yn unol â deddfwriaeth newydd a gyflwynwyd ar 4 Mai.  
Y newidiadau mawr cyntaf ers cychwyn cofnodion yn 1837
- Mae busnesau wedi cael eu gefnogi drwy gydol y pandemig drwy ddarpariaeth Grantiau Cymorth i Fusnesau a Chymorth Manwerthu  
Yn 3 niwrnod cyntaf byw y cynllun grant cyntaf, talwyd 1,113 grant, sef cyfanswm o £14 miliwn. Talwyd cyfanswm o 2,620 grant, sef cyfanswm o £31.4 miliwn yn ystod cyfnod un y cynllun. Roedd busnesau ar draws pob sector yn cydnabod y gwaith a wnaed gan y Cyngor yn ystod y cyfnod argyfyngus hwn, a bu gymaint o sylwadau cadarnhaol a geiriau o ddiolch am y gwaith a wnaed gan y Cyngor
- Talwyd cyfanswm o £50.9 miliwn i fusnesau yn ystod y pandemig, yn ychwanegol i'r 1,265 busnes a oedd yn cael dyfarniad o £16.3 miliwn o rhyddhad ardrethi manwerthu, hamdden a lletygarwch

### Meysydd Gwella

- Mae lefelau Treth y Cyngor 'yn y flwyddyn' wedi gostwng o'i gymharu â llynedd
- Ni gyrhaeddodd lefelau casglu Ardrethi Annomestig y targedau disgwylidig

## Portffolio: Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi

### Perfformiad Cryf

- Darparwyd 2,173 mesur arbed ynni i leihau tlodi tanwydd, yn erbyn targed o 600
- 62% o geisiadau 'mawr' eu pennu o fewn y cyfnodau amser gofynnol yn erbyn targed o 60% ar gyfer y flwyddyn
- Bu ymchwiliad i 54.17% o achosion gorfodi o fewn 84 niwrnod
- Roedd penderfyniadau a wnaed yn erbyn argymhellion y swyddog yn 7.31% o'i gymharu â tharged o 20%

### Straeon Cryf

- Roedd gwaith rhagweithiol a wnaed gan y Tîm Gorfodi yn ystod y cyfnod clo wedi arwain at ostyngiad yn yr amser cyfartalog a gymerwyd i ddilyn camau gorfodi cadarnhaol, unwaith torrwyd unrhyw reolau.
- Ymgwymerodd Safonau Masnach Sir y Fflint ag erlyniad llwyddiannus töwr a oedd wedi twyllo gweddw am £40,000. Cawsant eu dedfrydu i 18 mis yn y ddalfa i'w wasanaethu'n barhaus gyda 9 mis yn y carchar yn syth a 9 mis ar drwydded wedi hynny. Cafodd ei wahardd hefyd rhag bod yn gyfarwyddwr cwmni am 5 mlynedd.
- Mae Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint wedi erlyn landlordiaid sector preifat o Sir y Fflint am sawl trosedd dan ddeddfwriaeth tai sydd wedi'i llunio i warchod tenantiaid yn y sector rhentu preifat
- Roedd uchafbwyntiau o'r Rhaglen Gwerth Cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys:
  - Rhannwyd adnewyddiad contract Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc fel enghraifft o arfer da a ddarparwyd gan y Cyngor wrth fewnosod gwerth cymdeithasol i'r contractau caffael gofal cymdeithasol yng Ngwobrau Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol 2021
  - Datblygiad Fframwaith Themâu, Canlyniadau a Mesurau (Fframwaith TOMs) ar gyfer Sir y Fflint
  - Caffael Impact Reporting Ltd, system y mae Fframwaith TOM's wedi'i mewnosod iddi ar hyn o bryd
  - Gwnaed cynnydd sylweddol gyda chymhwysio Polisi Caffael Gwerth cymdeithasol, ac mae gwerth cymdeithasol wedi cael ei gynnwys mewn nifer o gontractau ymhob maes gwasanaeth
  - Datblygiad gwerth cymdeithasol
  - Lluniwyd ffilm am werth cymdeithasol a fydd yn cael eu ddefnyddio fel adnodd allweddol i hyrwyddo'r rhaglen gwerth cymdeithasol ac arfer da
  - Cafwyd cymeradwyaeth uchel gan Lywodraeth Cymru o ran cynnydd model gwerth cymdeithasol a fabwysiadwyd gan Sir y Fflint
- Adeiladwyd dau fferm solar ar safleoedd tir llwyd yn y Fflint a Chei Connah
- Darpariaeth gwaith arolwg Clefyd Coed Ynn o rwydwaith ein ffyrdd a cham cychwynnol torri coed wedi'u heintio

### Meysydd Gwella

- Ni wnaeth yr amser cyfartalog a gymerwyd i bennu ceisiadau cynllunio gyrraedd y targed a osodwyd ar gyfer y flwyddyn

## Portffolio: Gwasanaethau Cymdeithasol

### Perfformiad Cryf

- Cafodd 7 o ofalwyr maeth newydd eu recriwtio
- Cafodd 4 plentyn eu hatal rhag mynd i'r system gofal drwy ddyfarniad Gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig i aelodau'r teulu
- Derbyniodd 133 o blant gynnig gweithredol eiriolaeth
- Derbyniodd 1,257 o deuluoedd wybodaeth a chefnogaeth drwy'r Hwb Cymorth Cynnar
- Comisiynodd 378 oedolyn eu gwasanaethau eu hunain drwy daliad uniongyrchol
- Cafodd 100% o geisiadau brys am gyfarpar eu diwallu neu fynd tu hwnt i safonau ymateb cenedlaethol o 1 diwrnod; bodlonodd hynny'r targed ar gyfer y flwyddyn
- Cafodd 100% o geisiadau brys am gyfarpar eu diwallu neu fynd tu hwnt i safonau cenedlaethol o 7 niwrnod; bodlonodd hynny'r targed ar gyfer y flwyddyn
- Cafodd 96.75% o ymholiadau am ddiogelu oedolion eu hateb o fewn y terfynau amser 7 niwrnod a aeth tu hwnt i'r targed a osodwyd am y flwyddyn
- Agorwyd 55 uned gofal ychwanego (43 rhandy 1 ystafell wely a 12 rhandy 2 ystafell wely yn Nhreffynnon (Plas Yr Ywen)
- Roedd 1,136 o bobl dros 65 oed yn cael eu cefnogi i fyw gartref, a 501 o bobl hŷn eraill yn cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal.

### Straeon Cryf

- Gweithredwyd Meicro-Ofal, gan arwain at 12 o ofalwyr meicro yn darparu gwasanaethau yn y Sir
- Dangos ein hymrwymiad i ddod â thrais dynion yn erbyn merched i ben drwy dderbyn achrediad Rhuban Gwyn
- Derbyn cydnabyddiaeth o'n Gwasanaethau Anabledd Dysgu yng Ngwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru a chyrraedd rhestr fer Gwobrau APSE
- Cyflogi dau unigolyn graddedig, pobl ifanc gydag Anableddau Dysgu, o raglen prosiect SEARCH, yn ein gwasanaethau, gydag eraill yn derbyn gwaith â thâl
- Gweithredu Model Cefnogi Gofalwyr Maeth – Mockingbird
- Cynnydd o ran estyniadau i Marleyfield House
- Cwblhau ac agor Gofal Ychwanegol Plas yr Ywen

### Meysydd Gwella

- Sicrhau bod tystiolaeth/dadansoddiad sy'n nodi'r broses o wneud penderfyniadau yn yr Hwb Cymorth Cynnal yn cael ei gofnodi'n gyson i sicrhau bod y gefnogaeth a'r cymorth iawn yn cael ei roi ar yr amser iawn
- Sicrhau bod asesiadau a chyfarfodydd grŵp craidd i blant a enwyd ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael eu cynnal yn gyson, yn unol â gofynion statudol

## Portffolio: Gwasanaethau Stryd a Chludiant

### Perfformiad Cryf

- Dosbarthwyd dros 3,500 o becynnau cinio i ddisgyblion yn eu cartrefi yn ystod y cyfnod clo gwreiddiol
- Gweithredwyd mesurau cadw pellter cymdeithasol mewn 80 ysgol ledled y Sir, yn ogystal â chanol trefi, i sicrhau amgylchedd diogel a oedd yn cydymffurfio i'r sawl oedd yn dychwelyd i fannau cyhoeddus
- Mae dro 700 tunnelli o eitemau 'gwastraff' wedi cael eu hanfon i'w hailddefnyddio o Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref Sir y Fflint ac eiddo preswyl
- Mae data cenedlaethol yn parhau i ddangos bod ffyrdd o fewn Sir y Fflint yn cynnwys y cyfran isaf mewn cyflwr gwael – mae cyflwr ffyrdd B ac C wedi mynd tu hwnt i'r targedau
- Cael dros £6.8 miliwn o gyllid yn llwyddiannus ar gyfer cyflawni prosiectau isadeiledd cludiant allweddol
- Cafwyd £1.3 miliwn o gyllid Trawsnewid Trefi ar gyfer gwelliannau i Ganol Trefi yr Wyddgrug a Bwcle i gynorthwyo gydag adferiad y pandemig drwy ddarpariaeth mynediad cynaliadwy i gyflogaeth a sefydliadau manwerthu

### Straeon Cryf

- Yr unig Awdurdod yng Ngogledd Cymru i gael ei ddewis ar gyfer gweithredu cynllun peilot 20mya, wedi'i drefnu i'w weithredu yn ardaloedd Bwcle a Mynydd Isa
- Mae Hyfforddai Gweithredol wedi'i enwi fel Hyfforddai'r Flwyddyn Sir y Fflint
- Enwyd y Gwasanaethau Profedigaeth fel Enillwyr Dyfarniad APSE
- Cafwyd llwyddiant yn sicrhau Cyllid Ffyrdd Cydnerth Llywodraeth Cymru am yr ail flwyddyn yn olynol i helpu cadernid priffyrdd ar yr A548, oherwydd materion parhaus llifogydd ar y cerbyttfordd
- Cafodd gwasanaethau megis casgliadau gwastraff ac ailgylchu, ymateb brys i ddigwyddiadau o dywydd garw (graeanu, llifogydd), gwasanaethau claddu/profedigaeth, gwasanaethau cludiant, darpariaeth cynlluniau cludiant (cynlluniau ailwynebu, cludiant integredig a theithio llesol) eu cynnal drwy gydol y pandemig
- Cafodd Cyllid Economi Gylchol Adfer Gwyrdd ei ddyfarnu'n llwyddiannus i agor canolfan atgyweirio ac ailddefnyddio cymunedol, gyda chaffi, yn nhref Bwcle i hyrwyddo mentrau newid ymddygiad o ran gwastraff ac ailgylchu, cydlyniant cymunedol ac adfywio canol tref
- Dyfarnwyd cyllid Llywodraeth Cymru'n llwyddiannus i gyflwyno cerbyd ailgylchu trydan, gan gynnwys isadeiledd gwefru cysylltiol, i'w fflyd o gerbydau, gyda'r nod o hyrwyddo datrysiadau cludiant glanach a mwy effeithlon
- Cafwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i brynu dau gerbyd ar gyfer y gwasanaeth bws trydan i'w defnyddio o fewn gwasanaethau teithio lleol y Cyngor, ac i gefnogi prynu isadeiledd gwefru cysylltiol, yn ogystal ag ymgymryd â darpariaeth hyfforddi hanfodol
- Llwyddiant wrth gael cyllid ORCS (Cynllun Pwynt Gwefru Preswyl ar y Stryd) ar gyfer gweithredu tri deg pedwar pwynt gwefru cerbydau trydan o fewn meysydd parcio sy'n perthyn i'r Cyngor
- Dechreuwyd ar y gwaith o ailddatblygu'r Cyfleuster Compostio Maes Glas, ar ôl cael cyllid gan Lywodraeth Cymru, i wella rheoli traffig ar y safle ac i ddatblygu'r safle yn gyfleuster rhanbarthol i drin gwastraff gwyrdd
- Lansiad llwyddiannus cronfa mantais gymunedol Partneriaeth Trin Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru  
Mae'r gronfa wedi cefnogi grwpiau cymunedol yn, ac o amgylch Cei Connah, gyda'r pwysau ariannol maent wedi eu hwynebu oherwydd y pandemig
- Cafodd Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus ar gyfer rheoli cŵn a chŵn yn baeddu ei adnewyddu i ganiatáu ar gyfer gorfodi effeithiol y drosedd gwrthgymdeithasol ac amgylcheddol hon
- Hwylusodd yr Uned Trafnidiaeth Integredig:
  - ddisbarthiad dros 3,500 o becynnau cinio i ddisgyblion yn eu cartrefi yn ystod y cyfnod clo gwreiddiol
  - cludiant Plant Gweithwyr Allweddol i ganolbwytiau addysg penodol ledled y Sir

- Gweithredu mesurau cadw pellter cymdeithasol mewn 80 ysgol ledled y Sir, yn ogystal â chanol trefi, i sicrhau amgylchedd diogel a oedd yn cydymffurfio i'r sawl oedd yn dychwelyd i fannau cyhoeddus
- 

### Meysydd Gwella

- Dirywiad i berfformiad ailgylchu'r Cyngor oherwydd cynnydd i swm y gwastraff gweddillol bagiau bin du yn cael eu casglu o eiddo preswyl
- Mae'r nifer o ddigwyddiadau o daflu sbwriel, cŵn yn baeddu a thaflu gwastraff yn anghyfreithlon wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf
- Mae angen i'r Cyngor archwilio cyfleoedd i leihau allyriadau carbon sy'n cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, ddatblygiad cyfleoedd cludiant cynaliadwy a gweithio o gartref neu mewn canolbwyntiau

## Portffolio: Prif Weithredwyr

### Perfformiad Cryf

- Cwblhaodd 131 o reolwyr a gweithwyr hyfforddiant Rheoli Straen Aeth hyn tu hwnt i'r targed a osodwyd ar gyfer y flwyddyn
- Aethpwyd tu hwnt i'r targed ar gyfer canran arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd i'w cyflawni ar gyfer y flwyddyn
- Mae nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul gweithiwr cyfwerth â llawn amser oherwydd absenoldeb salwch wedi gwella ers y flwyddyn flaenorol
- Proseswyd 76,383 o daliadau yn ystod Cyflogau 2020/21 gyda chywirdeb o 99.60%

### Straeon Cryf

- Cymerodd Gyngor Sir y Fflint rôl cyflogwr arweiniodd ar gyfer y rhaglen Profi, Orlhain a Diogelu ar ran chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru, gan gynnwys recriwtio, cyflogau a chyngor/canllawiau i Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru. Proseswyd dros 3,300 o geisiadau; dros 450 o ddechreuwyd newydd a dros 100 o adawyr
- Orlheiniodd y gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu 8,904 o breswylwyr Sir y Fflint a gafodd brawf positif am Covid, a gofynnwyd i 19,660 o gysylltiadau â gachosion positif i hunan-ynysu
- Parhaodd Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol i gefnogi'r sefydliad drwy'r pandemig gydag effaith gyfyngedig ar y gwasanaeth a ddarparwyd
- Darparodd lechyd Galwedigaethol gefnogaeth arbenigol i nifer o wasanaethau rheng flaen i'r sawl oedd angen cefnogaeth ychwanegol i ymdopi a'u gofynion yn rhan gynnar y pandemig
- Cefnogodd lechyd Galwedigaethol y rhaglen frechu yn Ysbyty'r Enfys Glannau Dyfrdwy, aeth pedwar aelod o staff clinigol am un diwrnod yr wythnos
- Roedd cyrsiau Ymwybyddiaeth lechyd Meddwl ar gael ar draws yr awdurdod, a oedd wedi cael eu croesawu'n dda gan weithwyr
- Roedd cynnydd mewn presenoldeb ar y cwrs 'Sgiliau Hyfforddi i Reolwyr' yn ystod y flwyddyn
- Cynnydd yn mhresenoldeb rheolwyr a gweithwyr mewn nifer o sesiynau hyfforddi ymwybyddiaeth, gan gynnwys ymwybyddiaeth straen ac ymwybyddiaeth ofalgar

### Meysydd Gwella

- Canran targed incwm a gyllidebwyd yn cael ei gyflawni oherwydd profiad gyffredinol yn gostwng ac yn methu cyrraedd y targed
- Mae'r nifer o brentisiaid sydd wedi cwblhau'r rhaglen gyda chanlyniad cadarnhaol wedi gostwng o ran perfformiad cyffredinol a'r targed wedi'i fethu









## Cynnydd ar Gynllun y Cyngor – Ffeithlun o statws COG

### Asesiad o'n Perfformiad

Mae'r tabl isod yn cynnig trosolwg o gynnydd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cynllun y Cyngor. I gael rhagor o wybodaeth fanwl, gweler yr Adroddiad Monitro Diwedd Blwyddyn.

Mae'r allwedd isod yn diffinio'r Coch / Oren / Gwyrdd (COG) ar gyfer mesurau wedi'i cynnwys yn yr Adroddiad Monitro Diwedd Blwyddyn.

<u>Allwedd Statws Perfformiad</u>			<u>Allwedd Statws Patrwm</u>
	<b>Cynnydd Cyfyngedig</b> - oedi yn y gweithgaredd a drefnwyd; ddim ar y trywydd iawn		<b>Dirywiad</b> – O'i gymharu â data llynedd, mae canlyniad y perfformiad wedi gostwng
	<b>Cynnydd Boddhaol</b> - rhywfaint o oedi mewn gweithgaredd a drefnwyd, ond ar y trywydd iawn ar y cyfan		<b>Cynhaliwyd</b> – O'i gymharu â data llynedd, mae'r perfformiad yr un fath â'r flwyddyn flaenorol
	<b>Cynnydd Da</b> - gweithgareddau'n cael eu cwblhau ar amser, ar y trywydd iawn		<b>Wedi gwella</b> – O'i gymharu â data llynedd, mae canlyniad y perfformiad wedi gwella


### Crynodeb o'r Data Perfformiad

#### Crynodeb o Berfformiad Cenedlaethol (Sefyllfa Cymru Gyfan)


Nid oedd Llywodraeth Cymru ac Uned Ddata Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni gyflwyno Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus ar ddyddiad cyhoeddi'r ddogfen hon. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar berfformiad y Cyngor yn erbyn y targedau a osodwyd ganddynt, a phatrwm y flwyddyn flaenorol, 2019/20.

## Sut y gwnaethom berfformio yn erbyn Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus 2020/21

Mae canlyniad y perfformiad wedi gostwng yn ystod 2020/21. Mae hyn o ganlyniad i ffactorau megis cyfyngiad ar ddata oran addysg gydag ysgolion wedi cau, a llai o gyfleoedd i aelodau o'r cyhoedd yn cael mynediad i gyfleusterau.




## Cymhariaeth Statws COG y Perfformiad yn erbyn 2019/20




## Tuedd Perfformiad ar gyfer Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus 2020/21

Drwy gydol 2020/21, rydym wedi gweld dirywiad cyffredinol mewn tuedd perfformiad. Mae'r patrwm y dirywiad wedi cynyddu o 27% yn 2019/20 i 47% yn 2020/21. Mae nifer y mesurau â thuedd sydd wedi gwella wedi gostwng o 73% yn 2019/20 i 40% yn 2020/21.




## Cymhariaeth o Duedd COG y Perfformiad yn erbyn 2019/20



## Crynodeb Perfformiad Cynllun y Cyngor


Mae crynodeb o berfformiad 2020/21 yn erbyn Mesurau Cynllun y Cyngor wedi'i grynhoi yn y siart dangosydd perfformiad isod. Roedd 67% o ddangosyddion wedi cyflawni'r targed neu'n well o'u cymharu â 78% yn 2019/20. 13% o ddangosyddion oedd wedi methu'r targed o'i gymharu ag 8% yn ystod 2019/20. Caiff 20% o ddangosyddion eu monitro o'i gymharu â 14% yn 2019/20.

### Siart 2a: Statws COG y Perfformiad ar gyfer Mesurau Cynllun y Cyngor 2020/21




### Cymhariaeth o Statws COG Perfformiad yn erbyn 2019/20

## Cymhariaeth o COG Perfformiad yn erbyn 2019/20




Rhoddir crynodeb o duedd perfformiad 2020/21 yn erbyn Mesurau Cynllun y Cyngor yn y siart dangosydd perfformiad isod. Cafwyd gwelliant i 43% o ddangosyddion o'i gymharu â 52% yn 2019/20. Bu dirywriad mewn 52% o ddangosyddion perfformiad o'i gymharu â 41% yn 2019/20. Cynhaliodd 5% eu perfformiad o'u cymharu â 7% yn 2019/20.

**Siart 2b: Tuedd Perfformiad ar gyfer Mesurau Cynllun y Cyngor 2020/21**



**Cymhariaeth o Statws Tuedd Perfformiad yn erbyn 2019/20**




## Crynodeb o Ddata Perfformiad y Cyngor

Mae'r tabl isod yn cymharu data perfformiad o 2017/18 hyd at 2020/21. Mae pob colofn yn dangos cynnydd cadarnhaol neu gyson a wnaed o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r tabl isod yn dangos ein bod wedi dirywiad i berfformiad cyffredinol eleni o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Ni all Mesuryddion Perfformiad ar gyfer y flwyddyn hon eu cymharu'n uniongyrchol i'r blynyddoedd blaenorol oherwydd y cyfyngiadau a roddwyd ar wasanaethau a'r adferiad parhaus. Mae'n bwysig amlygu hefyd bod y dirywiad i'r perfformiad llawer llai na'r disgwyl.


**Siart 3a: Canran o fesurau Cynllun y Cyngor yn erbyn y targed ar gyfer 2017/18, 2018/19 a 2019/20 a 2020/21**



## Rheoli Risg a Chynllunio Busnes

Mae Risgiau Strategol a Risgiau Cynllun y Cyngor wedi cael eu hadrodd fel rhan o Berfformiad Cynllun y Cyngor, yn ystod adolygiadau perfformiad canol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn mewn blynyddoedd blaenorol. Mewn ymateb i'r pandemig, fe wnaethom alw am Gynlluniau Parhad Busnes Sir y Fflint. Lluniwyd y cynlluniau hyn i alluogi gwasanaethau i barhau i weithredu yn y tymor byr. Gyda'r ymateb i'r pandemig yn parhau yn hirach na'r tymor byr, ac yn newid i dymor canolig/hirdymor, datblygwyd dull newydd o weithio o ran cynllunio busnes ac adfer. Fe ddatblygon ni gynlluniau adfer busnes yn seiliedig ar ddull rheoli risg effeithiol, a oedd yn tanategu'r cynlluniau hyn. Roedd y dull hwn yn mewnosod rheoli risg i weithgareddau bob dydd, a rhannwyd adroddiadau rheolaidd ar risg i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu o fis Mehefin 2020. Rhannwyd diweddariadau corfforaethol ar adfer yn Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wrth i'r ymateb a'r cam adfer fynd rhagddo.

## Cenedlaethau'r Dyfodol – Pum Ffordd o Weithio - Astudiaeth Achos: Cartref Preswyl Marleyfield



Mae'r datblygiad dau lawr, 32 ystafell wely newydd i ehangu cartref gofal preswyl Marleyfield y cyntaf o'i fath yng Nghymru. Mae'r dyluniad a'r gwaith adeiladu wedi'i siapio'n llwyr ar ei bwrpas craidd o wella lles, ac mae'n hwyluso model gweithredu arloesol iawn ar gyfer cefnogi a gofalu am bobl hŷn.

### Tymor Hir:

Mae'r adeilad a'r ardal o'i gwmpas ymhell o fod yn safonol, gyda phob agwedd wedi'i ystyried yn ofalus i sicrhau yr amgylchedd gorau posib tu mewn a thu allan ar gyfer gwella iechyd, cysur, urddas a lles.

Mae gan gynllun yr adeilad sawl mesur dylunio i leihau, nid yn unig defnydd ynni a chostau gweithredu, ond hefyd gofynion carbon gweithredol yr adeilad, ac mae ar y trywydd iawn i gyflawni sgôr BREEAM Da lawn ac ECP A i leihau carbon gweithredol.

Mae'r prosiect yn cynrychioli newid sylweddol yn ansawdd ei ddarpariaeth cartref gofal. Yn gymesur, mae'n gweithredu fel patrwm unigryw ac ysbrydoledig a ellir ei fabwysiadu ledled Cymru a thu hwnt.

### Atal:

Mae'r amgylchedd mewnol wedi'i ddylunio i gefnogi anghenion iechyd a llesiant preswylwyr. Pwrpas yr adeilad yw cefnogi unigolion sydd wedi'u rhyddhau o'r ysbyty fel rhan o'r broses adfer, gyda mynediad i gefnogaeth briodol i sicrhau eu bod yn gallu parhau i fod yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain am gyn hired â phosib. Bydd yr adeilad yn cefnogi lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal a'r galw ar wasanaethau'r ysbyty a gwllâu. Bydd y cartref a'r man awyr agored ar ei newydd wedd yn hyrwyddo gwell iechyd a lles.

Bydd ystafelloedd therapi penodol yn hwyluso adsefydlu ar gyfer y sawl sy'n aros yn yr ysbyty yn y tymor byr, a preswylwyr hirdymor pe bai'r angen. Mae'r cynllun yn cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia hefyd, gyda ffactorau megis cynllun yr ystafell, lliwiau a gwedd wedi'u optimeiddio i annog annibyniaeth, hyder a theimlad o ddiogelwch.



### **Integreiddio:**

Bydd Marleyfield House a'i weithrediad yn gwasanaethu fel meincnod ar gyfer datblygiadau'r dyfodol i gefnogi pobl hŷn o fewn a thu hwnt i Sir y Fflint.

Mae'n gysyniad arloesol, ac mae'r cyfleusterau modern ac effeithlon yn torri'r traddodiad o gartrefi gofal preswyl, ac yn darparu templed ar gyfer integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Gyda amgylchedd hamddenol a deniadol sy'n meithrin annibyniaeth ac ymgysylltiad cymdeithasol, bydd yn sefyll fel enghraifft i Gymru, ar sut y gellir darparu lleoedd o ansawdd uchel i fyw ynddynt wrth heneiddio, ar y cyd gyda gwasanaethau rhagorol.

### **Cydweithredu:**

Mae'r dull arloesol hwn o weithio mewn partneriaeth wedi darparu dull enghreifftiol ar gyfer sicrhau bod gofal rhagorol yn cael ei ddarparu i boblogaeth Sir y Fflint, mewn adeilad yr ydym yn gobeithio fydd yn cael i ddefnyddio fel sylfaen a thempled ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol.

Ynghyd â chynnig cartref tymor hir, mae'n darparu gofal tymor byr, cefnogaeth a gwasanaeth ailalluogi canolog o'r radd flaenaf. Wedi'i ddarparu mewn partneriaeth gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae'r model a arweinir gan therapi (a elwir yn D2RA) wedi'i ddylunio i helpu'r sawl sy'n dod allan o'r ysbyty i adennill eu hannibyniaeth a dychwelyd i'w cartrefi eu hunain.

### **Ymgysylltu:**

Mae'r prosiect wedi darparu gwerth cymdeithasol sylweddol iawn hefyd, gan gynnwys gwario'n lleol a defnyddio busnesau bach a chanolig, a llafur lleol. Yn ychwanegol at hyn, mae'r 43 wythnos prentis wedi'u cwblhau a chrëwyd chwe chyfle am swydd newydd.

## Cenedlaethau'r Dyfodol – Pum Ffordd o Weithio - Astudiaeth Achos: Canolfan Atgyweirio ac Ailddefnyddio gyda Chaffi, Bwcle



### Repair and Reuse centre with café - Buckley

www.refurbs.org.uk



Roedd Cyngor Sir y Fflint, yn gweithio mewn partneriaeth gyda Refurbs Sir y Fflint a Groundworks Gogledd Cymru yn llwyddiannus yn eu cais i'r 'Gronfa Economi Gylchol Adferiad Gwyrdd 2020-21' i ddod â Chanolfan Atgyweirio ac Ailddefnyddio gyda chaffi, i'r hen fanc HSBC yng nghanol tref Bwcle, a fyddai'n hyrwyddo cydlyniant cymunedol drwy fentrau atgyweirio ac ailddefnyddio, gan ddarparu cyfle i gefnogi adferiad canol y dref.

Nod y prosiect yw hyrwyddo addysg a newid mewn ymddygiad o ran gwastraff a mentrau ailgylchu, gan ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth ar gyfer pobl leol, creu lleoliad deniadol a diddorol yng nghanol y dref, wrth gefnogi cynllun adfywio strategol y dref a bwysicaf oll, creu lleoliad i'r gymuned ddod ynghyd.

Yn ganolbwynt i'r cyfan mae lletygarwch yr amgylchedd caffi ymlaciol, a bydd y gwasanaeth dechreuol a gynigir yn cynnwys:

- Dod â eitemau bach o'r cartref i'w hatgyweirio
- Arddangosiadau ar sut i wneud gwaith atgyweirio/technegau uwchgylchu y gellir eu defnyddio yn y cartref
- Darparu gwybodaeth ar sut i gyfrannu eitemau diangen yn y tŷ a all gael eu hadnewyddu i'w gwerthu neu eu hailgylchu
- Gweithdai a gweithgareddau gwirfoddoli er mwyn creu darnau y gellir eu gwerthu i'r caffi o ddeunyddiau wedi eu hailgylchu neu eitemau diangen
- Arddangos eitemau i'w prynu wedi'u cynhyrchu o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu

### **Tymor Hir:**

Bydd y cyfleuster yn hyrwyddo mentrau newid ymddygiadol tymor hir ar gyfer lleihau gwastraff i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o Economi Gylchol.

Bydd y cyfleuster yn cefnogi'r weledigaeth o adfer canol tref drwy annog pobl i ddefnyddio'r stryd fawr eto, a fydd yna'n defnyddio cyfleusterau lleol yn dilyn presenoldeb y ganolfan.

Pan gellir arddangos bod y model hwn yn llwyddiannus, y bwriad yw cyflwyno cyfleusterau tebyg mewn Canol Trefi eraill.

### **Atal:**

Nod y prosiect yw hyrwyddo lleihau gwastraff a dibyniaeth ar nwyddau untro. Bydd hyrwyddo mentrau atgyweirio ac aildefnyddio yn sicrhau bod eitemau gwerthfawr yn parhau i gael eu defnyddio, gan leihau gwastraff a'r effaith ar newid hinsawdd.

Bydd cynnig cyfleuster ddiddorol yn atynnu pobl i ganol trefi, a fydd yn atal dirywiad pellach amwynderau lleol, gan fydd cynyddu nifer yr ymwelwyr yn cynnig cyfleoedd er budd busnesau lleol eraill.

### **Integreiddio:**

Bydd y ganolfan, y caffi a'r gweithdai cysylltiedig ar gael i bobl o bob oed. Bydd gweledigaeth glir o'r prosiect yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac yn dod ag aelodau o'r gymuned, nad ydynt yn gwneud hynny eisoes, ynghyd,

Bydd y gweithdai'n cael eu datblygu a'u cyfarwyddo'n benodol i'r grŵp y maent yn eu targedu.

### **Cydweithredu:**

Mae'r prosiect wedi cael ei ddatblygu ar y cyd gyda Refurbs Sir y Fflint a Groundworks Gogledd Cymru sydd wedi cael hanes cadarnhaol o gefnogi pobl yn y gymuned leol a chyflawni ar brosiectau lleihau gwastraff.

### **Ymgysylltu:**

Bydd y ganolfan yn edrych ar ymgysylltu ymhellach gyda grwpiau cymunedol lleol i sicrhau bod y gweithdai yn cyflawni ar fuddion ac anghenion y gymuned.

Bydd cyfleoedd i bobl leol wirfoddoli yn y ganolfan a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau.

## Gwerth Cymdeithasol – Astudiaethau Achos

Mae detholiad o astudiaethau achos yn amlygu buddion sydd wedi'u cyflawni drwy ddarpariaeth rhaglenni gwerth cymdeithasol drwy'r contractau wedi'u rhestru isod:

### Estyniad i Gartref Gofal Marleyfield

Mae'r contract i gwblhau estyniad mawr i gartref gofal Marleyfield House ym Mwcle, wedi datgloi dros £1.3 miliwn o werth cymdeithasol drwy'r mentrau canlynol;

- 142 wythnos o brentisiaid masnach
- Darparwyd 13 wythnos o hyfforddeiaethau
- 4 cyfle am swyddi newydd llawn amser, wedi'u creu ar gyfer preswylwyr lleol nad oedd mewn Cyflogaeth, Addysg neu Hyfforddiant (NEET) yn flaenorol.
- Gwariwyd £2,124,197 yn ystod y prosiect ar nwyddau, gwaith a gwasanaethau gyda sefydliadau o fewn, ac o amgylch radiws 20 milltir Sir y Fflint.
- Buddsoddwyd £10,840 i gefnogi achosion cymunedol lleol, megis; adeiladu tŷ allan cysgodol i breswylwyr ym Marleyfield a chartrefi gofal eraill sy'n perthyn i'r Cyngor, i ddarparu lloches i unrhyw breswylwyr gwrdd â ffrindiau a theulu'n ddiogel yn ystod y pandemig.  
Mae'r cyflenwr wedi buddsoddi i gefnogi sawl achos cymunedol lleol arall, megis; rhoi bocsys esgidiau wedi'u llenwi gyda hanfodion i deuluoedd lleol sy'n profi tloedi a rhoi i Fanc Bwyd Sir y Fflint.
- Darparwyd 264 awr o amser gwirfoddoli staff i gefnogi prosiectau cymunedol lleol,
- 



- busnesau ac ymgysylltu gydag ysgolion lleol.
- 60 awr yn cefnogi pobl lleol i ganfod gwaith drwy fentrau cyflogadwyedd (pobl ifanc dros 24 oed)

Lleihau difrod amgylcheddol, lle mae 97% o wastraff yn cael ei atal rhag cael ei dirlenwi tua 2.39 tonnelli o wastraff, a chyflawnwyd arbedion dŵr a gostyngiad carbon arall.

### Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc

Yn 2020, cafodd y Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc ei ail gaffael, a lle darparwyd cyfnod o ymgynghori cynhwysfawr o 4-5 mis gyda'r defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a Chyngor Yr Ifanc Lleol, y darparwr gwasanaeth cyfredol a gweithwyr proffesiynol eraill. Cafodd yr ymgynghoriadau eu darparu i sicrhau bod y gwasanaeth newydd yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth, gan roi llais iddynt wrth reoli canlyniadau troswaol sy'n eu cynorthwyo i gyflawni llesiant. Cyflwynwyd cyfle lle roedd defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynnwys fwyfwy yn nyluniad a darpariaeth gwasanaeth, gan roi anghenion unigol wrth galon eu gofal.

Yn ystod ymgynghoriadau, roedd tystiolaeth fod defnyddwyr gwasanaeth ifanc yn rhoi gwerth sylweddol ar eu hangen ar gyfer cefnogaeth gan gymheiriaid, cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ychwanegol gyda gofal seibiant, hwyluso rhwydweithiau naturiol, cynaliadwy tu allan i'r gwasanaeth, a gweithgareddau mwy ystyrlon a fyddai'n eu darparu gyda buddion lles ychwanegol megis gwell hyder, annibyniaeth, hapusrwydd a theimlad o gyflawniad.

Yn ogystal ag adeiladu rhai o'r gwerthoedd i'r model darpariaeth gwasanaeth, fe ddatblygon ni gyfres o themâu gwerth cymdeithasol craidd, canlyniadau a mesurau sy'n canolbwyntio ar ddyheadau ychwanegol, gan eu cynnwys fel rhan o 10% o bwysal elfen gwerth cymdeithasol o fewn y broses caffael ar gyfer darpar gyflenwyr i ymateb iddynt. Ymrwymodd y cynigydd llwyddiannus dros **£13,099.43 o werth cymdeithasol drwy'r mentrau canlynol;**

- 2 x gyfle 26 wythnos o waith am dâl i 2 ofalwr ifanc.

- 12 diwrnod lleoliad gwaith am dâl i 12 o ofalwyr ifanc yn un o'r siopau elusen.
- 12 diwrnod o ofal seibiant wedi'i dalu amdano i alluogi 12 o ofalwyr ifanc i gael mynediad i'r cyflenwyr am ddiwrnod o brofiad gwaith am dâl gydag un o'r siopau elusen fel yr amlinellir yn yr ymrwymiad uchod.
- 26 wythnos mewn lleoliad gwaith heb dâl
- Cynllun mentor/cyfaill rhwng cenedlaethau gyda gofalwyr ifanc, mewn cydweithrediad gyda rhwydwaith Celtic Business, gyda 117 o aelodau busnes i ddarparu mentora cyflogaeth a chyswllt i gyfleoedd gwaith gyda chyflogwyr lleol.
- Diwrnod ymwybyddiaeth gofalwyr ifanc, gan ddarparu cefnogaeth i ofalwyr ifanc a chodi ymwybyddiaeth o'r heriau mae gofalwyr ifanc yn wynebu a ymgyrchoedd am gefnogaeth gwell iddynt.
- Gweithgareddau ychwanegol, tu allan i wasanaethau, gan gynnwys; Cymorth Cyntaf, coginio, cyllid a chyllidebu, entrepreneuriaeth, cais Dragon's Den.




## Cyffordd Abermorddu

## Hollybush/Signalau

Mae'r prosiect i uwchraddio cyffordd Hollybush yng Nghefn y Bedd, sy'n cynnwys cyffordd gyda signalau, gwelliannau i'r droedffordd a llwybr beiciau gyda gwaith dinesig cysylltiol. Mae'r prosiect yn cynnwys gwaith uwchraddio i'r cyfarpar signalau presennol yn Abermorddu a rhoi wyneb newydd ar ran o'r A541. Mae'r contract wedi datgloi £379,137.46 o werth cymdeithasol, gan olygu ar gyfer pob £1 sy'n cael ei fuddsoddi mae £0.90 o enillion cymdeithasol ar y buddsoddiad. Mae hyn wedi cael ei gyflawni drwy'n mentrau canlynol;

- Mae angen £426,698.70 a wariwyd gyda chadwyn gyflenwi leol ar gaffael nwyddau, gwaith gwasanaethau sydd ei angen ar gyfer darparu'r contract.
- Gwariwyd £525 drwy staff yn gwirfoddoli a rhoi adnoddau ar fentrau i wella diogelwch ar ffyrdd lleol.



- Mae'r sefydliadau wedi cydweithio Ysgol Gynradd Gymunedol Abermorddu yn ystod y cyfnod adeiladu i ddarparu gwarsi diogelwch ar y ffyrdd i ddisgyblion yn dilyn canllawiau gan Raglen Kerbcraft Diogelwch Ffyrdd Cymru.
- Darparwyd cefnogaeth gan ddau Brentis wedi'u lleol yng Ngogledd Cymru sy'n Lysgenhadon Adeiladwaith/STEM a chanddynt dystysgrif ddiweddar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Rhoddwyd £1000 i gefnogi Cynllun Chwarae Holway i ddarparu darpariaeth bwyd hanfodol i blant sy'n rhan o'r cynllun dros 6 wythnos gwyliau'r haf.

## Cydraddoldeb

Mae'r Cyngor yn cymryd ei ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a meithrin cysylltiadau da trwy ei holl weithgareddau, o ddifrif. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi parhau i wneud cynnydd o ran bodloni ein hamcanion cydraddoldeb a'n dyletswyddau statudol. Rydym wedi parhau i weithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill i hyrwyddo Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb i annog pobl i roi gwybod am y mater ac atgyfnerthu'r neges nad yw trosedd casineb yn iawn. Rydym wedi ailwampio ein safle Teithwyr i gynnwys cyflenwad trydan newydd, cawodydd newydd a ffensys newydd. Rydym wedi gosod celfi stryd ar gyfer gemau a chae pum bob ochr i gynyddu cyfleoedd ar gyfer chwarae. Mae'r Adroddiad Asesiad o Anghenion Iechyd a gomisiynwyd gennym gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael ei gwblhau a bydd hyn yn nodi ein blaenoriaethau yn y dyfodol ar gyfer gweithio gyda Sipsiwn a Theithwyr.

## Safonau'r Gymraeg

Rydym yn ymrwymo i hyrwyddo, cefnogi a diogelu'r iaith Gymraeg er lles cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol, a sicrhau ein bod yn gallu cynnig gwasanaethau o ansawdd uchel drwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg. I gynyddu'r nifer a chanran y gweithwyr gyda lefelau sylfaenol o sgiliau Gymraeg, mae gofyn i weithwyr sy'n adrodd nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Gymraeg gwblhau cwrs blasu. Fe wnaethom gymryd rhan yn y Diwrnod Hawliau (ymgyrch Diwrnod Cenedlaethol Hawliau'r Gymraeg), i hyrwyddo ein gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg, gan annog siaradwyr Gymraeg i gysylltu â ni yn Gymraeg. Rydym wedi parhau i gefnogi Menter Iaith Sir y Fflint a Wrecsam (sefydliad cymunedol annibynnol sy'n gweithio i gynyddu a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol) i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi Sant ar draws y sir a llwyddom i sicrhau cyllid i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar-lein.

## Gweithgarwch Partneriaethau a Chydweithio

Mae gan Sir y Fflint hanes hir a balch o weithio mewn partneriaeth. Mae'r cymunedau y mae yn eu gwasanaethu yn disgwyl i bartneriaid statudol a thrydydd sector i weithio gyda'i gilydd i rannu blaenoriaethau drwy gydweithio. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint yn greiddiol i'r gwaith o hybu diwylliant cadarnhaol o gydweithio ac mae'n canolbwyntio ei egni, ymdrech ac adnoddau ar ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon i gymunedau lleol.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint yn dîm cryf ac unedig a sefydlwyd yn ffurfiol ar 1 Ebrill 2016 o ganlyniad i gyflwyno "Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)" sy'n dod i rym. Mae'r Bwrdd yn cynnwys uwch arweinwyr o nifer o sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol: Cyngor Sir y Fflint, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru (aelodau statudol), ynghyd â Heddlu Gogledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, Coleg Cambria, Prifysgol Glyndŵr, Gwasanaethau Prawf Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru a chynrychiolydd ar ran Cynghorau Tref a Chymuned Sir y Fflint (aelodau BGC a wahoddwyd). Gyda'i gilydd, mae'r sefydliadau hyn wedi gweithio'n gadarnhaol wrth weithredu cynllun llesiant ar gyfer Sir y Fflint, ac maent wedi cydweithio i ddarparu'r blaenoriaethau o fewn y flwyddyn i wella gwasanaethau a chanlyniadau i bobl leol. Gellir canfod copi o'r cynllun llesiant ar gyfer Sir y Fflint, [yma](#).

Dros y 12 mis diwethaf, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint wedi canolbwyntio eu hymdrechion mewn dau maes blaenoriaeth sydd wedi parhau ers y flwyddyn flaenorol. Sef:

- Diogelwch Cymunedol – Mae Pobl yn Ddiogel
- Byw'n Iach ac yn Annibynnol

Cafodd blaenoriaethau blaenorol ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint (Yr Economi, yr Amgylchedd a Chydnerthu Cymunedol) eu datblygu fel ganlyn:

- **Economi** – mae'r flaenoriaeth yn cael ei harwain ar lefel ranbarthol gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Rhanbarthol gyda phrosiectau perthnasol a gweithgareddau yn cael eu darparu'n lleol
- **Yr Amgylchedd** – mae'r flaenoriaeth yn gymysgedd o waith ar y cyd rhwng Wrecsam ac ymrwymadau wedi'i darparu'n lleol
- **Cydnerthu Cymunedol** - mae'r flaenoriaeth wedi'i arwain ar y cyd gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam o ganlyniad i benderfyniad a wnaed gan y Grŵp Adfer Strategol Rhanbarthol (sy'n cynnwys arweinwyr gwasanaeth cyhoeddus allweddol)

Mae'r sefyllfa argyfyngus dros y flwyddyn ddiwethaf wedi newid ein ffordd o fyw gartref, yn ein gwaith a bywyd cymdeithasol. Mae sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector wedi cefnogi unigolion a chymunedau mewn ffyrdd na rhagwelwyd o'r blaen. Rydym yn parhau i gefnogi adferiad o'r pandemig drwy weithio mewn partneriaeth ac yn fwy diweddar, mewn ymateb i'r heriau, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint wedi ymuno â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam i ffurfio corff unedig i weithredu rhai o'r heriau cymdeithasol mwy brys a hirdymor sy'n effeithio ar y ddwy sir.

Ffurfiwyd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd rhwng Sir y Fflint a Wrecsam ym mis Mehefin 2020 i fynd i'r afael â Chydnerthu Cymunedol gyda phwrpas clir, cyfunol:

- Plant a Phobl Ifanc
- Yr Amgylchedd a Lleihau Carbon
- Iechyd Meddwl a Lles
- Tlodi ac Anghydraddoldeb

Bydd y blaenoriaethau hyn ar y cyd gyda dwy flaenoriaeth a barhaus ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint yn dod yn flaenoriaethau ar gyfer 2021/22, a byddan yn cael eu cofnodi gyda Cynllun Lles cymysg wrth symud ymlaen.

Amcan cyfunol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd gyda Wrecsam yw cydweithio i wneud gwahaniaeth yn y meysydd blaenoriaeth hyn, gan gofio na all yr un sefydliad gyflawni hyn ar ei ben ei hun; gall y sefydliadau partner a gynrychiolir ar y Byrddau hyn gyda'i gilydd wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r bobl sy'n byw, yn ymweld ag, ac yn gweithio yn Sir y Fflint, ac mae nifer o enghreifftiau cadarnhaol o ganlyniad i'r dull partneriaeth hwn o weithio, megis estyniad i Gartref Preswyl Marleyfield a'r Cynllun Gofal Ychwanegol newydd yn Nhreffynnon (Plas yr Ywen).



## Rheoleiddio, Archwilio ac Arolygu

Mae'r Cyngor yn cael ei reoleiddio gan nifer o sefydliadau trwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith eraill, Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ar gyfer Addysg ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae'r Swyddfa Archwilio yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, sef yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau'r holl waith y mae Swyddfa Archwilio wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn.

Ar y cyfan, daeth Archwilydd Cyffredinol Cymru i gasgliad cadarnhaol. "Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor wedi diwallu ei ddyletswyddau cyfreithiol ar gyfer cynllunio gwelliannau ac adrodd ar welliannau a chredir ei bod yn debygol y bydd yn diwallu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ystod 2020-21".

## Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'w ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau fel cyflogwr o ran iechyd a diogelwch. Rheoli gweithleoedd sy'n ddiogel i iechyd pob un o weithwyr, isgontractwyr, budd-ddeiliaid y Cyngor ac aelodau'r cyhoedd yw un o'n prif flaenoriaethau. I fodloni'r flaenoriaeth hon, rydym yn bwriadu bodloni gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a deddfwriaethau cysylltiedig eraill cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.

## Gwybodaeth Gefndir Ychwanegol:

- Mesurau Cynllun y Cyngor 2020/21

## Adborth a Sut i gael Rhagor o Wybodaeth

Mae nifer o ddogfennau cysylltiedig sy'n ategu at yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn. Gellir cael y rhain drwy'r dolenni canlynol:

- Mesurau Cynllun Cyngor Sir y Fflint 2020/21
- Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Cyngor Sir y Fflint 2020/21
- Adroddiad Perfformiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint 2020/21
- Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020/21
- Adroddiad Monitro'r Gymraeg 2020/21

Diolch i chi am ddarllen ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2020/21.

Croesewir eich sylwadau a'ch awgrymiadau ynghylch sut y gallem wella'r cynnwys a chynllun yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer y dyfodol.

### **Cysylltwch â ni ar:**

Rhif ffôn: 01352 702744

E-bost: [corporatebusiness@flintshire.gov.uk](mailto:corporatebusiness@flintshire.gov.uk)